Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd nos Fercher, 16 Medi 2026, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

PRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs Joan Butterfield YH MBE (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr S. Feeney, C. L. Jones, K. R. Jones, W. Price, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol:

A. R. James (arsylwr)
Mrs E. M. Chard (arsylwr)
Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc

9. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs S. Connolly, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, D. Simmons, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

10. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO Y GWNAED PENDERFYNIADAU YN EU CYLCH YN YSTOD CYFNOD GWYLIAU MIS AWST

Ymhellach i gofnod rhif 57 o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2026, hysbysodd y Cadeirydd y gwnaed penderfyniadau ar y ceisiadau cynllunio a ganlyn (Rhestrau 1 i 3) yn dilyn ymgynghori ag Aelodau ers y cyfarfod diwethaf, er mwyn cydymffurfio â'r amserlen ymateb.

Nodyn 1: Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO 1 – CYFNOD GWYLIAU MIS AWST	
i.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** 2 Stryd Edward Henry, Y Rhyl, Sir Ddinbych **WARD:** Bodfor

	CYNGHORYDD Y WARD: Ms J. L. McAlpine **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0292/PF **DISGRIFIAD**: Newid bloc o fflatiau tri llawr ar gornel teras i ffurfio dau annedd a gwaith cysylltiedig **YMGEISYDD:** John Jones (Cymdeithas Tai Clwyd Alyn) ***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad*
ii.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Canolfan Fusnes y Bee and Station, 41 Stryd Bodfor, Y Rhyl, Sir Ddinbych **WARD:** Bodfor **CYNGHORYDD Y WARD:** Ms J. L. McAlpine **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0296/PF **DISGRIFIAD**: Newid defnydd ac adnewyddu'r llawr gwaelod i ffurfio swyddfeydd i alluogi cynnal grwpiau rhieni a babis. Addasiadau allanol yn cynnwys gosod cynhwysydd storio, storfa ar gyfer pramiau/bygis, man chwarae diogel a gwaith cysylltiedig **YMGEISYDD:** Vona Law ***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad*
iii.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn ne ddwyrain y Rhyl South East (cam 6), i'r de o Ffordd Elsie, Y Rhyl, Sir Ddinbych **WARD:** Trellewelyn **CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs M. A. Blakeley-Walker W. Price Ms V. Roberts **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2025/0577/MD **DISGRIFIAD:** Adeiladu 59 annedd fforddiadwy, gwagle agored cyhoeddus ar y safle, seilwaith y safle a gwaith cysylltiedig **YMGEISYDD:** Anwyl Construction Company Ltd a Chymdeithas Tai Wales and West ***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad*
iv	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych, Ysbyty Frenhinol Alexandra, Rhodfa'r Môr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3AS **WARD:** Plastirion **CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs J. M. Evans

	K. R. Jones **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0308/LBC **DISGRIFIAD:** Gwaith i'r gweddlun gogleddol, gan drwsio'r gwaith maen ac ailbwyntio, trwsio/adnewyddu ffenestri, drysau allanol pren a nwyddau dŵr glaw (cais Adeilad Rhestredig) **YMGEISYDD:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*

RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO 2 – CYFNOD GWYLIAU MIS AWST	
i.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** 5 Rhodfa Patagonia, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4RT **WARD:** Pendyffryn **CYNGHORWYR Y WARD**: A. J. Rutherford D. Simmons **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0065/HH **DISGRIFIAD**: Adeiladu estyniad un llawr ar du ôl ac estyniad deulawr ar ochr yr annedd **YMGEISYDD:** Mr Mike Brooks ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*
ii.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Cyngor Sir Ddinbych, Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3DP **WARD:** Plastirion **CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs J. M. Evans K. R. Jones **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0322/PF **DISGRIFIAD**: Gosod porth car gyda phaneli solar a seilwaith cysylltiedig **YMGEISYDD:** Energy Gain UK ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*
iii.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Pizza Hut, Parc Manwerthu Clwyd, Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2TJ **WARD:** Derwen **CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs E. M. Chard Mrs S. L. Connolly T. Thomas

	CYFEIRNOD Y CAIS: 45/2026/0285/PF **DISGRIFIAD:** Rhannu'r adeilad i ffurfio dwy uned, addasiadau allanol yn cynnwys dymchwel y fynedfa bresennol, ffurfio mynedfeydd newydd ac adnewyddu deunyddiau, llunio storfa gwastraff newydd, darparu ardal eistedd y tu allan a gwaith cysylltiedig **YMGEISYDD:** Peter Brown (RI MDC UK134 Limited) ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*
iv	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Safle'r hen Sea Aquarium, Rhodfa'r Dwyrain, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3AF **WARD:** Bodfor **CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. L. McAlpine **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0333/PF **DISGRIFIAD:** Adleoli ffair a gwaith cysylltiedig **YMGEISYDD:** Mr Andrew Ford (Cyngor Sir Ddinbych) ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*
v	**LLEOLIAD Y SAFLE:** The Marsh, 2 Ffordd y Morfa, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2DH **WARD:** Cefndy **CYNGHORWYR Y WARD**: C. L. Jones Mrs D. L. King Ms R. S. Roberts **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0108/PF **DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad ystafell haul i'r caffi/bistro sy'n bodoli eisoes **YMGEISYDD:** Mr Stephen Darbey ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*

RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO 3 – CYFNOD GWYLIAU MIS AWST	
i.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Rhan o gyn faes parcio Aldi, Ffordd Wellington, Y Rhyl, Sir Ddinbych **WARD:** Foryd **CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs J. Butterfield YH MBE A. R. James

	CYFEIRNOD Y CAIS: 45/2026/0341/PF **DISGRIFIAD**: Newid defnydd y cyn faes parcio i safle rhentu cerbydau, yn cynnwys adeiladu swyddfa a man golchi cerbydau a gwaith cysylltiedig **YMGEISYDD:** Enterprise Rent-A-Car UK Ltd ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*
ii.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Rhan o gyn faes parcio Aldi, Ffordd Wellington, Y Rhyl, Sir Ddinbych **WARD:** Foryd **CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs J. Butterfield YH MBE A. R. James **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0342/AD **DISGRIFIAD**: Arddangos arwyddion yn gysylltiedig â'r safle rhentu cerbydau arfaethedig **YMGEISYDD:** Enterprise Rent-A-Car UK Ltd ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*
iii.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** Tŷ Môr, 23 Rhodfa Westbourne, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1EG **WARD:** Foryd **CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs J. Butterfield YH MBE A. R. James **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0348/PF **DISGRIFIAD:** Newid defnydd o ganolfan gofal dydd i oedolion i gyfleuster preswyl ar gyfer tri pherson ifanc mewn gofal, 12 i 16 oed **YMGEISYDD:** Mr Rees James (Cyngor Sir Ddinbych) ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad*

12. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

Nodyn 1: Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO	
i.	**LLEOLIAD Y SAFLE:** 109-111 Stryd Fawr, Y Rhyl, Sir Ddinbych **WARD:** Bodfor **CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. L. McAlpine **CYFEIRNOD Y CAIS:** 45/2026/0334/PF **DISGRIFIAD**: Newid defnydd siop llawr gwaelod yn olchdy. Dymchwel estyniad un llawr ar du ôl yr adeilad ac adeiladu estyniad newydd. Newid y lloriau uchaf i ffurfio tri fflat hunangynhwysol. Rhoi ffenestr dormer ar y blaen a gwaith cysylltiedig **YMGEISYDD:** Mr Andrew Davies (Bay Wash Launderette Ltd.) ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad i'r newid defnydd arfaethedig yn ddarostyngedig i gael y caniatâd sy'n ofynnol gan yr awdurdod llifogydd lleol arweiniol, ac unrhyw gorff draenio perthnasol ynghylch gwaredu elifiant masnachol.*

13. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……..……

Dyddiad: ……..